# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Practis Deintyddol Symbiosis

Dyddiad Arolygu: 15 Rhagfyr 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Mawrth 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-8443-6
© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5
   - Ansawdd Profiad y Claf .......... 5
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13
5. Y Camau Nesaf .......... 14
6. Methodoleg .......... 15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Symbiosis yn 55 Ffordd Llundain, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DT ar 15 Rhagfyr 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Symbiosis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Symbiosis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig ac mae wedi'i leoli yn Noc Penfro, Sir Benfro.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un therapydd deintyddol, tair nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat, gan gynnwys triniaeth orthodonteg 'Six Months Smiles'[1].

[1] Gweithdrefn ddeintyddol tymor byr dros gyfnod o 6 mis yw '6 month smiles' sy'n rhoi ateb ymarferol i oedolion sydd am gael sythu eu dannedd cam heb ddefnyddio'r triniaethau orthodonteg traddodiadol

## 3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Symbiosis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion ac a berchir gan y cleifion.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd boddhad y cleifion yn uchel
- Roedd y staff y cawsom sgwrs â hwy yn hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac maent yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau wedi'u sefydlu i ddefnyddio pelydr-x yn ddiogel
- Caiff yr offer deintyddol ei lanhau a'i sterileiddio'n briodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Datblygu prosesau i gael adborth cleifion
- Cadw cofnod cwynion
- Datblygu cofnod archwilio cyffuriau
- Diweddaru'r wefan a'r rhestr brisiau
- Hyfforddiant diweddaru mewn dadheintio a chymorth cyntaf
- Gwella nodiadau'r cleifion yn y meysydd a nodwyd
- Trefnu i gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ac adolygiad gan gymheiriaid
- Archwiliad rheoli heintiau WHTM 01-05[2].

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiadur cleifion yn gadarnhaol. Roedd gwybodaeth am hybu iechyd er mwyn helpu i gefnogi cleifion fod yn gyfrifol am eu iechyd a'u lles ar gael ar wefan y practis a thrwy ymgynghoriad. Bu i ni gynghori'r practis i sicrhau bod deunydd hybu iechyd pellach ar gael yn y practis. Mae angen i'r practis ddatblygu proses i gael adborth cleifion yn rheolaidd fel dull o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, bu i ni ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 61 o holiaduron i ni. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Mae hwn yn bractis rhagorol yn fy marn i, ac mae'n cael ei redeg yn dda ac yn effeithlon iawn"*
>
> *"Y practis deintyddol gorau rwyf wedi'i ddefnyddio hyd yma"*
>
> *"Rwy'n teimlo'n hyderus ac yn dawel fy meddwl â'r gwasanaeth a ddarperir gan y ddeintyddfa. Rwy'n argymell y practis hwn yn fawr iawn"*
>
> *"Rwy'n glaf yma ers 13 mlynedd, ac rwyf wedi cael gofal deintyddol o safon uchel iawn. Mae'r staff yn gynnes/cyfeillgar ac yn gwneud i chi deimlo'n hamddenol cyn unrhyw driniaeth"*

Gofal gydag urddas

Darparwyd gofal i'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i'r staff sgwrsio â'r cleifion yn breifat, oddi wrth bobl eraill, pe bai angen. Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol a dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a gawsant yn y practis a'u bod yn cael croeso gan y staff. Roedd y practis a'r ddeintyddfa yn addas i ddefnyddiwr cadair olwyn ac roedd tŷ bach gyda mynediad i'r anabl ar gael.

Gofal amserol

Mae’r practis yn ceisio sicrhau y caiff gofal deintyddol ei ddarparu mewn modd amserol. Roedd system apwyntiadau hyblyg ar gael er mwyn i gleifion allu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac mewn argyfwng. Dywedodd y cleifion a ymatebodd i’r holiadur AGIC wrthym na fydd unrhyw oedi diangen cyn cael eu gweld gan y deintydd. Roedd y rhan fwyaf o’r cleifion yn gwybod sut i ddefnyddio’r gofal deintyddol y tu allan i oriau’r swyddfa. Mae manylion y practis ar gael y tu allan i’r ddeintyddfa gan gynnwys oriau agor, rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng ac enw a chymwysterau’r deintydd.

Cadw’n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd taflenni croeso ar gael i gleifion yn y man aros. Roedd gwybodaeth dda am hybu iechyd ar gael ar wefan y practis. Dywedwyd wrthym bod modd argraffu gwybodaeth am hybu iechyd oddi ar y cyfrifiadur yn ystod ymgynghoriad â chleifion unigol. Cawsom wybod y gellid argraffu gwybodaeth allweddol am hybu iechyd a’i bod ar gael yn yr ystafell aros i gleifion. Mae gwybodaeth am hybu iechyd yn cynorthwyo’r broses o gefnogi cleifion i fod yn gyfrifol am eu iechyd a’u lles eu hun.

Gofal unigol

Mae angen i’r practis ddatblygu a gweithredu proses i gael adborth cleifion fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dylid ystyried canlyniadau’r adborth a dderbynnir a’r camau gweithredu a gymerir i ymateb i unrhyw welliannau a awgrymwyd.

Roedd gan y practis weithdrefn wedi’i sefydlu i gleifion allu codi pryderon (cwynion) ac roedd hon ar gael yn amlwg yn y man aros. Roedd y weithdrefn yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008[3]. Fodd bynnag, mae angen diweddaru gwefan y practis er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn ddigonol, gan gynnwys amserlen ac enw cyswllt AGIC a’i bod ar gael yn fwy rhwydd. Mae angen diweddaru’r rhestr brisiau hefyd ar y wefan.

[3] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Dylid cadw llyfr cwynion/pryderon er mwyn gallu cipio pob pryder ac felly eu hadolygu o bryd i'w gilydd am unrhyw dueddiadau. Cawsom wybod bod y practis wedi derbyn rhywfaint o gwynion hyd yma a'i fod wedi ymdrin â'r rhain yn briodol yn unol â'r polisi cwynion. Gwelsom fod rhestr brisiau ar gyfer triniaethau ar gael, fel bod y cleifion gael gwybod beth yw'r pris. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai'r rhestr brisiau gynnwys uchafswm pris pan fo'r prisiau'n amrywio yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)[4].

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis ddatblygu proses i gael adborth y cleifion yn rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.***

***Mae'n rhaid i'r staff adolygu gwefan y practis er mwyn sicrhau bod gan y cleifion y wybodaeth ddiweddaraf yn unol â chanllawiau hysbysebu moesegol y GDC.***

***Mae'n rhaid i'r practis gadw cofnod o'r holl bryderon/cwynion, er mwyn dangos ei fod yn rheoli cwynion ac er mwyn gallu eu hadolygu o bryd i'w gilydd am unrhyw dueddiadau.***

***Mae'n rhaid i'r rhestr brisiau gynnwys uchafswm pris pan fo'r prisiau amrywio yn unol â chanllawiau'r GDC.***

[4] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Defnyddiwyd yr offer pelydr-x yn briodol ac yn ddiogel. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau sydd wedi'u sefydlu er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.**

**Gwelsom fod angen cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau WHTM 10-05. Bu i ni edrych ar gofnodion cleifion a gwelsom fod angen rhai gwelliannau. Rydym yn argymell y dylai'r deintyddion gynnal archwiliad o gofnodion cleifion gyda'i gilydd er mwyn rhannu'r broses o ddysgu ac arfer gorau.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda iawn. Adeiladwyd y practis yn ddiweddar i safon uchel ac roedd yr offer deintyddol yn fodern ac wedi'i osod yn dda

Roedd asesiadau risg ar Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)[5] ar gael a gwelsom fod dalenni data diogelwch ar gael gyfer yr holl sylweddau a chwblhawyd asesiadau risg a oedd yn benodol i'r gweithle a'r amgylchedd.

Gwelsom fod prawf dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi'i gynnal er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Nid oedd y dystysgrif drydanol bob pum mlynedd ar gael ar gyfer y safle. Dywedodd y deintydd wrthym ei bod yn debygol bod angen ei hadnewyddu ar ôl y gwaith o Adnewyddu'r adeilad tua pum mlynedd yn ôl. Cysylltodd y staff â chontractiwr trydanol er mwyn trefnu'r gwasanaeth yn ystod yr ymweliad arolygu. Cedwir cofnod o archwilio'r cywasgydd yn ddyddiol.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd yn amlwg bod y practis yn cael ei gynnal a'i

---

[5] COSHH yw'r gyfraith sy'n gofyn i gyflogwyr reoli sylweddau sy'n beryglus i iechyd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch drwy'r cyswllt canlynol http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm

gadw'n dda.  Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod yn strategol ac yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.  Cynhaliwyd ymarferion ac archwiliadau tân o bryd i'w gilydd.  Trefnodd y practis i adolygu ei asesiad risg tân a bu i ni ddweud y dylid ystyried yr arwyddion tân yn ardal yr islawr yn ystod yr adolygiad hwnnw.

Roedd contract ar waith i gael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.  Roedd cynwysyddion pethau miniog yn cael eu cadw'n ddiogel.  Roedd y trefniadau storio gwastraff clinigol yn briodol.

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn gan y gwelsom fod mesurau atal a rheoli heintiau wedi'u sefydlu gan gynnwys y canlynol:

- Ystafelloedd pwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol gyda sinciau golchi dwylo penodedig
- Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) megis menig untro, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael eu defnyddio
- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd i lanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol.  Cedwir cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio yn electronig ac ar system wrth gefn
- Roedd offerynnau wedi'u storio'n briodol.

Fodd bynnag, mae angen i'r practis gwblhau archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05).

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.***

Gwelsom fod angen i rai o'r staff gwblhau hyfforddiant diweddaru ar ddadheintio am 5 awr bob pum mlynedd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i un deintydd, un therapydd a dwy nyrs ddeintyddol gwblhau hyfforddiant diweddaru ar ddadheintio am 5 awr bob pum mlynedd.***

Roedd tystiolaeth o statws archwilio imiwnedd brechiad pob aelod o staff perthnasol wedi'i sefydlu. Roedd angen atgyfnerthu brechiad dau aelod o staff a threfnwyd dyddiad i hyn ddigwydd. Fodd bynnag, gwelsom fod angen ystyried statws archwiliad atgyfnerthu imiwnedd brechiad ar gyfer dau aelod arall o staff. Mae'n rhaid cadw cofnodion imiwnedd a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf am imiwnedd a/neu dystiolaeth o imiwnedd gydol oes pan fo hynny'n berthnasol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid cynnal archwiliadau brechiad a chadw cofnodion a/neu gofnodion imiwnedd gydol oes yn y practis.***

*Cyffuriau mewn argyfwng ac offer dadebru*

Roedd offer dadebru a chyffuriau mewn argyfwng ar gael yn y practis ac roedd systemau wedi'u sefydlu i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel pe byddai argyfwng claf (cwympo). Roedd cyffuriau mewn argyfwng wedi'u trefnu'n dda a dywedwud wrthym y gellid cadw llif siart cymorth bywyd cyfatebol i'w ddefnyddio mewn argyfwng penodol gyda'r cyffuriau mewn argyfwng. Dywedodd y staff wrthym fod archwiliadau o'r cyffuriau mewn argyfwng yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio proses syml o dicio rhestr. Fodd bynnag, gwelwyd fod chwistrellau a nodwyddau di-haint untro yn hen. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad. Rydym yn argymell y dylid cadw cofnod o archwilio'r cyffuriau mewn argyfwng a dylai hyn gynnwys yr holl gyffuriau, nodwyddau a phadiau diffribiwliwr.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis gadw llyfr cofnodion i archwilio cyffuriau mewn argyfwng, gan gynnwys yr holl gyffuriau, nodwyddau a phadiau diffribiliwr. Mae'n rhaid sefydlu system briodol i sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n hen yn cael eu gwaredu'n ddiogel.***

Roedd llyfr damweiniau priodol ar gael ac roedd taflenni damweiniau yn cael eu ffeilio'n ddiogel er mwyn cynnal y broses o ddiogelu data.

Gwelsom gofnodion i ddangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i gynnal y broses o adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Bu i ni gynghori'r practis i adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru er mwyn cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru er mwyn cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff.***

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Nodwyd dau aelod o staff fel swyddogion cymorth cyntaf, ond nid oedd tystysgrifau i nodi statws yr hyfforddiant diweddaru ar gael. Mae angen i'r practis sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig sydd â thystysgrif hyfforddiant gyfredol ar gael o fewn y tîm.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddiweddaru hyfforddiant y swyddogion cymorth cyntaf a chadw cofnod o'r hyfforddiant cymorth cyntaf.***

*Diogelu*

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch y plant ac oedolion agored i niwed a allai fod mewn perygl gan fod polisïau amddiffyn priodol wedi'u sefydlu ac roedd hyfforddiant diogelu pob aelod o staff perthnasol yn gyfredol. Bu i'r practis ddiweddaru ei bolisïau amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant, er mwyn iddynt gynnwys rhifau cyswllt diogelu lleol gan arddangos y rhain ar yr hysbysfwrdd yn ystod yr arolygiad.

Dywedwyd wtrhym bod trefniadau wedi'u sefydlu i'r staff godi unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hyn yn ymarferol. Cawsom wybod y cynhelir archwiliadau cyn cyflogi ar gyfer unrhyw aelod newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys archwiliadau diogelu priodol. Roedd archwiliadau diogelu ar gyfer y staff perthnasol yn gyfredol.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi'i gynllunio a'i drefnu er mwyn sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod yr holl staff a oedd yn ymwneud â chynnal sganiau radiograffeg wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol (ac roedd un aelod o staff wedi trefnu i fynychu hyfforddiant diweddaru ym mis Ionawr 2017). Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[6] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Mae angen i'r practis gwblhau archwiliadau radiograffeg at ddibenion sicrhau ansawdd, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

[6] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gwblhau archwiliadau radiograffeg at ddibenion sicrhau ansawdd, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

*Cofnodion Cleifion*

Gwelsom sampl o gofnodion deintyddol a chawsom sgwrs â'r ymarferwyr deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Yn gyffredinol, gwelsom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da.

Fodd bynnag, bu i ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- Nid oedd y deintydd a'r claf yn cydlofnodi'r hanes meddygol yn gyson a gwelsom nad oes system eglur ar gael i'w diweddaru
- Nid oedd rhoi cyngor am roi'r gorau i smygu a chanser y geg yn cael ei gofnodi'n gyson
- Mae angen cofnodi caniatâd gwybodus y claf yn barhaus, ynghyd â manylion y dewis o driniaethau a'r gost
- Mae angen cofnodi'r dos o feddyginiaeth ar bresgripsiwn
- Mae'n rhaid cofnodi cyfiawnhad a chanfyddiadau radiograffeg drwy'r amser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid cadw cofnodion cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau o ran y canfyddiadau penodol a nodwyd yn yr adroddiad.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Mae'r cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau ffurfiol i'r staff gynnal archwiliadau ac adolygiad gan gymheiriaid yn rheolaidd. Bu i ni gynghori'r practis bod dysgu o adolygiad gan gymheiriaid ac archwiliadau yn cyfrannu at ansawdd y gofal a ddarperir. Bu i ni drafod ystod y pynciau archwilio a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau ac arolygiad gan gymheiriaid yn rheolaidd, fel ffordd o***

***gynyddu'r broses o ddysgu, rhannu arfer gorau a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o brosesau rheolaeth ac arweinyddiaeth da yn y practis hwn. Fodd bynnag, roedd un aelod o staff allweddol sy'n rhan o oruchwylio'r prosesau sicrhau ansawdd yn absennol dros dro, ac roedd yn amlwg bod angen diweddaru'r prosesau sicrhau ansawdd o ganlyniad i hynny. Roedd y broses o recriwtio staff yn cael ei hystyried a bydd yn cefnogi diwygio'r maes hwn. Roedd y staff y cawsom sgwrs â hwy yn hapus yn eu rôl, yn deall eu cyfrifoldebau ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan yr uwch aelodau o staff. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi'u sefydlu.**

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff y cawsom sgwrs â hwy eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan uwch aelodau o staff. Gwelsom fod y staff yn gallu derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Dywedwyd wrthym bod arfarniadau staff wedi'u cynnal. Mae arfarniadau staff blynyddol yn bwysig er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir a chanfod unrhyw anghenion hyfforddi.

Dywedodd y staff wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff ffurfiol yn rheolaidd a gwelsom rywfaint o dystiolaeth o hyn. Bu i ni gynghori'r practis y gellid datblygu'r cyfarfodydd tîm er mwyn iddynt gynnwys eitemau allweddol ar yr agenda a chofnodion a chamau gweithredu manylach.

Bu i ni gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, cafodd y deintyddion sy'n darparu triniaeth breifat eu cofrestru ag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Symbiosis yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[7] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[8]. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r adeilad
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.  Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o ddefnyddio'r rheoliadau perthnasol yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[7] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made

[8] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Symbiosis

## Dyddiad yr Arolygiad: 15 Rhagfyr 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Mae angen i'r practis ddatblygu proses i gael adborth y cleifion yn rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) 2.1* | Bydd gennym flwch sylwadau a chwynion yn y man aros gyda chardiau i'r cleifion eu cwblhau. Caiff y blwch ei fonitro'n wythnosol a rhoddir unrhyw gwynion yn y cofnod cwynion yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol. | M.H. Morgan<br>J.S. Morgan | 01/02/2017 |
| 7 | Mae'n rhaid i'r staff adolygu gwefan y practis er mwyn sicrhau bod gan gleifion y wybodaeth | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Caiff lluniau o'r staff presennol eu tynnu ar 07/02/17 er mwyn diweddaru'r wefan. Ar ôl gwneud | M.H. Morgan<br>J.S. Morgan | 01/03/2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddiweddaraf yn unol â chanllawiau hysbysebu moesegol y GDC. | 2008<br>14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)* | hyn caiff y weithdrefn gwyno ei diweddaru hefyd er mwyn galluogi cleifion wneud cwyn yn rhwydd. | | |
| 7 | Mae'n rhaid i'r practis gadw cofnod o'r holl bryderon/cwynion, er mwyn dangos eu bod yn rheoli cwynion ac er mwyn cynnal adolygiad cyfnodol er mwyn edrych ar unrhyw dueddiadau. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>15 (1)<br><br>*Canllawiau'r GDC 5.1.6;* | Cedwir llyfr cofnodion yn swyddfa'r practis a caiff ei fonitro'n fisol. | M.H. Morgan<br>J.S. Morgan | Cwblhawyd |
| 7 | Mae'n rhaid i'r rhestr brisiau gynnwys uchafswm pris pan fo'r prisiau'n amrywio yn unol â chanllawiau'r GDC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r* | Cafodd y rhestr brisiau ei diweddaru ar ddiwrnod yr arolygiad, yn y practis ac ar y wefan, er mwyn cynnwys uchafswm pris yn unol â chanllawiau'r GDC | M.H. Morgan | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *GDC 2.4.1* | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau WHTM 01-05. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br><br>*WHTM 01-05* | Cafodd dull Archwilio WHTM 01-05 ei lawrlwytho o safle Deoniaeth Cymru. Fe'i cwblhawyd a chynhaliwyd cyfarfod y Practis ar 23/01/2017 i drafod y canlyniadau a'r gwelliannau mae eu hangen. Adolygiad ym mis Mehefin 2017. | J.S. Morgan | Cwblhawyd |
| 9 | Mae angen un deintydd, un therapydd a dwy nyrs ddeintyddol i gwblhau hyfforddiant diweddaru mewn dadheintio am 5 awr bob pum mlynedd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 1(b)<br><br>*GDC Safon 7 a DPP ar gyfer canllawiau Deintyddol Proffesiynol* | Mae'r therapydd eisoes wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru mewn dadheintio ac anfonwyd copi o'i thystysgrif at AGIC drwy e-bost 16/12/2016<br><br>Bydd un deintydd a dwy nyrs yn cwblhau'r cwrs diweddaru yn y sioe ddeintyddol ym mis Mai 2017 | M.H. Morgan | 31 Mai 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 10 | Dylid cynnal archwiliadau brechiad a chadw cofnodion a/neu gadw cofnodion imiwnedd gydol oes yn y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) a 14 (6)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) 1.5.2* | Cwblhawyd y broses o roi brechiad atgyfnerthu ac mae'r holl ddogfennau yn gyfredol ar gyfer y staff i gyd | M.H. Morgan | Cwblhawyd |
| 10 | Mae'r rhaid i'r practis gadw llyfr cofnodion i archwilio'r cyffuriau mewn argyfwng, gan gynnwys yr holl gyffuriau, nodwyddau a phadiau diffibriliwr. Mae'n rhaid sefydlu system briodol i sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau sy'n hen yn cael eu gwaredu'n ddiogel. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Camddefnyddio* | Cedwir cofnod o'r holl gyffuriau mewn argyfwng, nodwyddau, chwistrellau a phadiau diffibriliwr, sy'n cael eu monitro'n fisol. Eir ag unrhyw ddeunyddiau sy'n hen i'r fferyllfa leol i'w gwaredu'n ddiogel. | M.H. Morgan<br>J.S. Morgan | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Cyffuriau Fformiwlâu Ymarferwyr Deintyddol 2001* | | | |
| 10 | Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru er mwyn iddo gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 1(b)<br><br>*Safonau'r GDC 6.2.6 and 6.6.6* | Cwblhawyd adolygiad cychwynnol a'i ddiweddaru. Cynhelir trafodaeth bellach yn hyfforddiant CPR nesaf y practis a gaiff ei drefnu ar gyfer Mawrth/Ebrill 2017 | M.H. Morgan | Cwblhawyd |
| 11 | Mae'n rhaid i'r practis ddiweddaru hyfforddiant y swyddog cymorth cyntaf a chadw cofnod o'r hyfforddiant cymorth cyntaf. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (2)<br><br>*Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981* | Trefnwyd i P.J.Morgan a B.Harries fynd ar gwrs cymorth cyntaf ar 17/02/17<br><br>Cedwir cofnod o'r hyfforddiant mewn ffeiliau personol. | J.S. Morgan | 17 Chwefror 2017 |
| 12 | Dylai'r practis gwblhau | Rheoliadau | Mae P.J.Morgan wedi dechrau ar | P.J.Morgan | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | archwiliadau radiograffeg at ddibenion sicrhau ansawdd, yn unol â gofynion rheoliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | y gwaith o ddiweddau'r broses o sicrhau ansawdd mewn radiograffeg deintyddol yn llwyr ar ôl diwrnod astudio IRMER yn ddiweddar. Yn sgil hyn rydym wedi diweddaru ein profion rheoli ansawdd i'w cynnal yn ddyddiol, yn wythnosol ac yn fisol. Adolygir y broses o sicrhau ansawdd yr holl ddata a gasglwyd ymhen 3 mis ac archwilir ansawdd ar ddiwedd y flwyddyn. | | |
| 12 | Mae'n rhaid cadw nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau o ran y canfyddiadau penodol a nodir yn yr adroddiad. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) Safon 4* | Caiff y broses o ddiweddaru hanes meddygol, cofnodi meddyginiaeth ar bresgripsiwn a chyfiawnhau arferion sy'n ymwneud â radiograffeg i gyd eu gweithredu ar unwaith. Byddwn yn ymdrechu i gofnodi rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu a sgrinio canser y geg yn fwy cyson gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael ar ein system R4. | P.J.Morgan | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau ac adolygiad rheolaidd gan gymheiriaid, fel dull o gynyddu'r broses o ddysgu, rhannu'r arfer gorau a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2008 adran 16A (1) | Cynhelir cyfarfodydd mwy ffurfiol yn fisol i gynnwys adolygiad gan gymheiriaid, rhannu'r arfer gorau a sicrhau ansawdd gofal. | M.H. Morgan | 1 Mawrth 2017 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Dim | | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** Peter a Margaret Morgan

**Teitl:** Deintyddion

**Dyddiad:** 2/1/2017